CYNLLUN DATBLYGU PROFIADAU AR DDIWRNOD GÊM
CRONFA WELLA SEFYDLIAD PÊL-DROED CYMRU

CANLLAW

CYFLWYNIAD A DIBEN

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i Glybiau sy'n gwneud cais ar gyfer cyflwyno Cynllun Datblygu Profiadau ar Ddiwrnod Gêm ("Cynllun") fel gwybodaeth ategol i'w cais i Gronfa Wella Stadia ("y Gronfa"), sy'n cael ei rheoli gan Sefydliad Pêl-droed Cymru ("CFF").

Mae clybiau sy'n llunio Cynllun yn gallu haenu a chyfiawnhau datblygiadau yn eu cyfleusterau dros gyfnod penodol o amser, gan ganiatáu iddynt fod yn fwy rhagweithiol tuag at anghenion eu rhanddeiliaid yn hytrach nag adweithio yn erbyn gofynion meini prawf gorfodol.

YMGYNGHORIAD

Mae ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol yn rhan hanfodol o greu Cynllun – mewn unrhyw raglen cyllid grant, dylai'r Ymgeisydd ymrwymo bob amser i gyfnod ymgynghori â'i fuddiolwyr. Gan mai nod y Gronfa yw gwella profiadau gwylwyr yn ogystal â Chwaraewyr, Swyddogion Gemau ac aelodau perthnasol eraill o'r Clwb, mae'n bwysig bod y Clwb yn gwbl ymwybodol o'u hanghenion.

Cynnal Arolwg

Un dull a argymhellir ar gyfer deall anghenion y rhanddeiliaid hyn yw cynnal arolwg. Gall clybiau ddefnyddio meddalwedd fel *Google Forms* neu *SurveyMonkey* neu adnoddau eraill sydd ar gael i randdeiliaid arolygon.

Gellir gofyn i'r ymatebwyr wneud y canlynol:

- sgorio i seilwaith y Clwb sy'n ymgeisio allan o X;
- sgorio darpariaeth lluniaeth y Clwb sy'n ymgeisio allan o X;
- rhoi sylwadau ar ansawdd y profiadau cyffredinol ar ddiwrnod gêm;
- rhoi sylwadau ar ba mor ddiogel maen nhw'n teimlo yng nghyfleusterau'r Clwb;
- argymell gwelliannau cyffredinol i gyfleuster y Clwb;
- argymell gwelliannau cyffredinol i weithrediadau'r Clwb ar ddiwrnod gêm.

Mae'n bwysig bod y Clwb yn gallu casglu gwybodaeth sylfaenol i gyd-fynd â'r data hwn, fel y rhaniad rhwng ymatebwyr Gwrywaidd a Benywaidd.

Dylid lawrlwytho canlyniadau'r ymgynghoriad a'u cyflwyno yng Nghynllun y Clwb. Dylai'r Clwb ddefnyddio canlyniadau'r arolwg i gyflwyno crynodeb o'r canfyddiadau – dylai hyn gefnogi'r cais cyffredinol.

Enghraifft

Mynegodd Clwb A ddiddordeb mewn gwneud cais am Gronfa Wella Stadia Sefydliad Pêl-droed Cymru ar gyfer cysgodfeydd, gan fod trwydded yn mynnu bod angen cysgodfeydd sydd â thri ar ddeg o seddi. Cynhaliodd y Clwb arolwg o'r gwylwyr a'r chwaraewyr i adolygu eu hanghenion, a datgelwyd bod y gwylwyr yn teimlo nad oedd gan y cyfleuster ddigon o ddiogelwch ac awyrgylch. Yna cyflwynodd y Clwb Gynllun Datblygu Profiadau ar Ddiwrnod Gêm ochr yn ochr â chais gwybodus – roedd y cais yn cynnwys y cysgodfeydd gofynnol, ynghyd â chamerâu teledu cylch cyfyng a system PA well i fodloni argymhellion y gwylwyr.

CREU CYNLLUN (STRATEGAETH)

Gall clybiau ddefnyddio unrhyw feddalwedd sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw i greu Cynllun, ond er hwylustod, argymhellir bod y Clwb sy'n ymgeisio yn defnyddio naill ai Microsoft PowerPoint neu Microsoft Word i greu'r ddogfen hon. Gall y clybiau sydd â lefelau uwch o gymhwysedd digidol ystyried defnyddio offer a/neu feddalwedd deallusrwydd artiffisial sy'n eu galluogi i olrhain cynnydd dros sawl tymor.

Dylai clybiau ddechrau ar eu Cynllun drwy roi cyflwyniad, sy'n rhoi cyd-destun i hanes, gwirfoddolwyr a chwaraewyr y Clwb. Dylid nodi'n glir y cynghreiriau, y lleoliad daearyddol, y llwyddiannau a'r cyfyngiadau perthnasol yn yr adran hon.

Ar ôl cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad uchod, mae'n bosibl y bydd Clybiau'n dymuno cyflwyno crynodeb beirniadol o'r canlynol

- darpariaeth profiad ar gyfer gwylwyr, fel digwyddiadau cyn y gêm, yn ystod hanner amser ac ar ôl y gêm;
- darpariaeth seilwaith ar gyfer gwylwyr, fel seddi, clybiau, ardaloedd cefnogwyr, meysydd parcio
- darpariaeth seilwaith ar gyfer Chwaraewyr, Hyfforddwyr a Swyddogion Gemau, fel llifoleuadau, ansawdd y cae, cysgodfeydd ac ystafelloedd newid;
- darpariaeth lluniaeth;
- darpariaeth toiledau;
- costau ar y giât;
- gweithdrefnau a seilwaith diogelwch eiddo a diogelwch personol.

Yna, ar sail ymgynghoriad, ymchwil, meini prawf trwyddedu ac ansawdd y seilwaith presennol, dylai'r Clwb gyflwyno crynodeb o'r canlynol:

- unrhyw seilwaith neu awgrymiadau newydd ar gyfer profiadau ar ddiwrnod gêm er mwyn darparu gwell awyrgylch i wylwyr;
- unrhyw welliannau seilwaith i ddarparu gwell profiad i Chwaraewyr, Hyfforddwyr a Swyddogion Gemau;
- unrhyw ddulliau newydd o ddarparu lluniaeth, neu unrhyw luniaeth newydd;
- unrhyw gynnydd neu ostyngiad arfaethedig i'r costau ar y giât;
- unrhyw welliannau arfaethedig i seilwaith neu weithdrefnau diogelwch. Efallai y

bydd clybiau'n dymuno cyflwyno eu gwelliannau arfaethedig mewn graffig o flwyddyn i

flwyddyn.

RHESTR WIRIO

Eitem	Cwblhawyd
Cyflwyniad i'r Clwb (cyd-destun sylfaenol, timau, hanes)	
Crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd (methodoleg)	
Prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad	
Asesu'r seilwaith presennol a'r ddarpariaeth profiad	
Gwelliannau arfaethedig a chyfiawnhad	
Yr amserlen a ragwelir ar gyfer gwelliannau	
Amcangyfrif o'r costau ar gyfer gwelliannau, o flwyddyn wrth flwyddyn (os yw'n hysbys)	
Crynodeb	

ATODIAD

	Men's Tier 1	Men's Tier 2	Men's Tier 3
'A' Criteria	1,500 capacity 500 seats 2 Turnstiles Obscure-view boundary fence (recommended 2m) PA System 100m x 64m minimum pitch (105 x 68m recommended) 1.1m spectator fencing (with 1.5m minimum run-off, though 3m advised) Warm-up area 13 Seat Dugouts 4th Official position with desk 5 Showers (H&A) 1 Private WC (H&A), new developments 3 20 Spaces for seating (H&A), new developments 25 1 Shower (Ref) 1 Private WC (Ref) 5 spaces for seating plus desk (Ref) Female match officials' space Wi-Fi Emergency Medical Room Doping Control Station 500 Lux Floodlighting 2 bus parking bays (teams and officials) 10 car parking bays (teams and officials) 20 car parking bays (VIPs) Four sides' access for spectator standing or seating Four sides' hardstanding 5% total capacity reservation for away segregation Even distribution of flushing WCs with sinks Disabled WC per 15 wheelchair users Dedicated disability viewing area 50 VIP seats (split 30 H, 20 A) Media room equipped with desks, power and Wi-Fi TV Gantry (multi-camera TV unit with 1 3-seater commentary position) Second TV commentary position near halfway line (3 seats) One covered radio position (3 seats) 20 seat Press Box inc min 5 desks, power and Wi-Fi Broadcaster OB Van Parking Area (hardstanding 100m2 area)	750 Capacity 250 Seats PA System 98m x 62m minimum pitch (105 x 68 recommended) 1.1m spectator fencing (with 1.5m minimum run-off, though 3m advised) Warm-up area 13 Seat Dugouts (minimum 8 on first inspection) 4 Showers (H&A) 1 Private WC (H&A), new developments 3 18 Spaces for seating (H&A), new developments 25 1 Shower (Ref) 1 Private WC (Ref) 3 Spaces for seating (Ref) Female match officials' space Matchday Office with strong phone signal and/or Wi-Fi Defibrillator 1 bus parking bay (teams and officials) 10 car parking bays (teams and officials) 10 car parking bays (VIPs) Hardstanding (concrete, stone or tarmac) – one full length and one full width Even distribution of flushing WCs with sinks 10 VIP seats (5 for visiting team officials) Hospitality area for VIPs Press box, central to the main stand Press box: 10 covered seats – 5 of which equipped with desks	500 capacity 100 Seats PA System 98m x 62m minimum pitch (105 x 68 recommended) 1.1m spectator fencing (with 1.5m minimum run-off, though 3m advised) Warm-up area 13 Seat Dugouts (minimum 8 on first inspection) 10 car parking bays (teams and officials) 10 car parking bays (VIPs) Hardstanding (concrete, stone or tarmac) – one full length and one full width
'B' Criteria	Control room Segregated post-match congregation area for Players, Officials and Family 1 seated WC per 250 males (5 WCs) 1 urinal per 125 males (10 Urinals) 1 seated WC per 125 females (3 WCs)	2 Turnstiles Obscure-view boundary fence (recommended 2m) Spare goalposts 250 Lux Floodlighting Four sides' access for spectator standing or seating 5% total capacity reservation for away segregation 1 seated WC per 250 males (3 WCs) 1 urinal per 125 males (5 Urinals) 1 seated WC per 125 females (2 WCs) Disability viewing area Disabled WC (per 15 wheelchair users) Press box' inclusion of power supply and Wi-Fi Media Room with Wi-Fi and power supply TV Gantry (3 seats for TV commentary) 1 Covered Radio commentary position (3 seats) Post-match interview area Broadcaster OB Van Parking Area (hardstanding 100m2 area)	Obscure-view boundary fence (recommended 2m) Drainage system Matchday Office Defibrillator Medical Room 250 Lux Floodlighting Four sides' spectator standing or seating 5% total capacity reservation for away segregation 1 seated WC per 250 males (3 WCs) 1 urinal per 125 males (5 Urinals) 1 seated WC per 125 females (2 WCs) Disability viewing area Disabled WC (per 15 wheelchair users) 10 VIP seats (5 for visiting team officials) Hospitality area for VIPs Press box, central to the main stand Press box: 10 covered seats – 5 of which equipped with desks TV Gantry (3 seats for TV commentary) 1 Covered Radio commentary position (3 seats) Post-match interview area Broadcaster OB Van Parking Area (hardstanding 100m2 area)

App.1

Dyma siart sy'n rhoi manylion seilwaith blaenoriaeth A a B ar gyfer Trwyddedau Cynghrair o Haenau 1-3 (Dynion). Sylwch, efallai fod seilwaith A a B wedi cael ei ddiweddaru ers i'r ddelwedd hon gael ei llwytho i fyny i'r ddogfen hon, felly anogir Clybiau i sicrhau eu bod bob amser wedi darllen y gofynion trwyddedu diweddaraf ar gyfer yr haen berthnasol. Efallai nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr - hefyd, nid yw'n cynnwys staff.

Gwyrdd: Eitem gymwys drwy Gronfa Gwella Stadia Sefydliad Pêl-droed Cymru; Coch: Eitem anghymwys. Mae modd trafod unrhyw eitemau eraill gyda Rheolwr Rhaglen Sefydliad Pêl-droed Cymru.